# Y GWASANAETH ADDYSG

# FFORWM DERBYN I YSGOLION

# CYNHALIWYD: Dydd Mercher 28 Ionawr 2026 am 3.30pm dros TEAMS

| | |
|---|---|
| 1 | **Yn Bresennol / Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>1.1 Yn Bresennol:-<br>K. Tucker<br>K. Slade<br>C Dickens<br>L Smith<br>J Carr<br>K Smith<br>S Redwood<br>S Lewis<br><br>1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan y canlynol ac fe'u derbyniwyd;<br><br>K. Worwood<br>S. Tong<br>S Davies |
| 2. | **Penodiadau - Cadeirydd ac Is-gadeirydd**<br><br>2.1 Gofynnodd K.S i'r grŵp a fyddai unrhyw un yn hoffi manteisio ar y cyfle i gadeirio'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw wirfoddolwyr, cadeiriodd KS y cyfarfod. |
| 3. | **Penodiadau - Pennaeth Uwchradd a Phennaeth Cynradd**<br><br>3.1.<br>Dan Mutlow – Ysgol Uwchradd Croesyceiliog fel cynrychiolydd Uwchradd<br>Keri Smith - Ysgol Gynradd Nant Celyn fel cynrychiolydd Cynradd<br>Lindsay Smith – Ysgol Gynradd Pen-y-garn fel cynrychiolydd Cynradd<br>Learne Harris – Ysgol Gynradd Dewi Sant fel cynrychiolydd gwirfoddol â chymorth<br>Anna Britten - Ysgol Gynradd Wirfoddol Treftadaeth Blaenafon fel cynrychiolydd Cynradd (wrth gefn)<br>Sarah Truelove - Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer fel cynrychiolydd Cynradd (wrth gefn)<br>Anthony Ager – Ysgol Gyfun Abersychan fel cynrychiolydd uwchradd (wrth gefn)<br>Hannah Bedford – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fel cynrychiolydd ALI |

| | |
|---|---|
| | Charlotte Dickens – Tîm Blynyddoedd Cynnar fel cynrychiolydd ALI |
| **4.** | **<u>Nodiadau Cyfarfod Fforwm 22 Hydref 2025</u>**<br><br>4.1 Dosbarthwyd nodiadau'r cyfarfod ymlaen llaw ymhlith aelodau'r Fforwm a'r grŵp ehangach, gan wahodd sylwadau. |
| **5.** | **<u>Materion yn Codi</u>**<br><br>5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi. |
| **6.** | **<u>Diweddariad Medi 2025</u>**<br><br>6.1 **Newid ysgol yn ystod y flwyddyn yn 25/26 -** Hyd yma cafwyd 395 o geisiadau i newid ysgol yn ystod y flwyddyn, 222 cynradd a 173 uwchradd.<br><br>6.2 Mae'r Panel Symudiadau wedi'u Rheoli yn parhau i ymgynnull bob pythefnos gyda'r holl ysgolion uwchradd yn Nhorfaen. Cynhelir y panel gyda naill ai Penaethiaid neu gynrychiolwyr o'r ysgolion a all wneud penderfyniad dirprwyedig yn y cyfarfod. Pwrpas y Panel oedd trafod y disgyblion anodd eu lleoli, ac i ysgolion drafod disgyblion y teimlent y byddent yn elwa ar Symudiadau wedi'u Rheoli. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 24/25 cynhaliwyd cyfanswm o 12 Symudiad a Reolir, o'r rheiny roedd 3 yn llwyddiannus ac mae un yn dal i fynd rhagddo. |
| **7.** | **<u>Diweddariad Medi 2026</u>**<br><br>7.1<br>**Cynradd 2026** – Daeth y rownd 'ar-amser' i ben ar 31 Hydref 2025. Cafwyd 895 o geisiadau. Bydd penderfyniadau'n cael eu cyhoeddi ar 2 Mawrth.<br><br>**Cynradd 2026** – Daeth y rownd 'ar-amser' i ben ar 15 Ionawr 2026. Hyd yma cafwyd 809 o geisiadau, fodd bynnag, nid yw pob un wedi'i wirio eto a bydd angen prosesu'r ceisiadau papur hefyd, felly bydd y ffigwr hwn yn newid. Bydd penderfyniadau'n cael eu cyhoeddi ar 16 Ebrill 2026.<br><br>**Meithrin 2026 –** Mae'r rownd o geisiadau Meithrinfa 2026 wedi dod i ben. Derbyniwyd 452 o geisiadau. O'r rheiny cafodd 100% leoliad ym mis Medi yn eu dewis cyntaf o ysgol. Nid oeddem yn gallu cynnig lleoliad i 15 ymgeisydd gan ddechrau ym mis Ionawr 2026 oherwydd bod y nifer derbyn wedi'i gyrraedd. Y dyddiad penderfynu ar gyfer lleoli yn Ebrill y rheiny sy'n codi'n 3 oed yw 30 Ionawr 2026, ni allwn gynnig lleoliadau codi'n 3 oed ym mis Ebrill i 21 ymgeisydd. |
| **8.** | **<u>Ystyried trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer 2027/28</u>**<br>8.1 Mae Cod Derbyniadau Ysgolion Llywodraeth Cymru yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r ALI wedi derbyn hysbysiad gan LlC o rai o'r newidiadau maen nhw'n eu cynnig i'r cod i'w hadolygu.<br><br>8.2 Ymgynghorodd yr Awdurdod Lleol ar ei drefniadau derbyn ar gyfer 27/28 rhwng 9 Rhagfyr 2025 a 20 Ionawr 2026. |

Cynradd:- 2027
Dyddiad agor 13 Tachwedd 2026
Dyddiad cau 15 Ionawr 2027 (5pm)
Dyddiad cynnig 16 Ebrill 2027 (dyddiad y cynnig statudol)

Uwchradd:- 2027
Dyddiad agor 18 Medi 2026
Dyddiad cau 30 Hydref 2026 (5pm)
Dyddiad cynnig 1 Mawrth 2027 (dyddiad cynnig statudol)

Meithrin:- 2027
Dyddiad agor 8 Mehefin 2026
Dyddiad cau 20 Gorffennaf 2026
Dyddiad cynnig 18 Medi 2026 (Medi 2027 plant 4 oed a Ionawr 2027 plant sy’n codi’n 3)
Y dyddiad cynnig i blant sy’n codi’n 3 ar gyfer mis Ebrill oedd dydd Gwener 29 Ionawr 2027

8.3 Mae Polisi Derbyn yr Ysgol ar gyfer 2027/28 wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth i rym yn sgil y cynllun cydlynu trefniadau derbyn rhwng y cyngor a'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (Ffydd) canlynol;

- Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant, Cwmbrân
- Ysgol Gynradd Gatholig Mair a’r Angylion, Cwmbrân
- Ysgol Gynradd Gatholig Padre Pio, Pont-y-pŵl
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henllys
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Ponthir

Eleni, mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig newidiadau i niferoedd derbyn yr ysgolion canlynol;

- Ysgol Gynradd Maendy o 60 i 55
- Ysgol Gynradd Penygarn o 63 i 60

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cynnig newidiadau i nifer y lleoedd mewn rhai ysgolion. Nid yw hyn er mwyn lleihau capasiti'r ysgol ond er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'u niferoedd derbyn.

Mae rhywfaint o waith hefyd wedi'i wneud i gyfuno'r Polisi Derbyniadau a'r llyfryn Rhieni/Gofalwyr yn un ddogfen (ar ôl cymeradwyo'r polisi derbyniadau). Felly, mae rhai o'r paragraffau yn y ddwy ddogfen wedi'u disodli/symud i adlewyrchu hyn. Bydd meysydd o’r polisi hefyd yn cael eu hail-eirio i ddiweddaru terminoleg / darparu mwy o eglurder ynghylch pynciau penodol heb newid y bwriad.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y polisi terfynol yn cael ei rannu gyda'r aelod gweithredol dros Addysg ar 17 Mawrth yn barod i'w gyhoeddi erbyn 15 Ebrill 2026.

**9.** **Adolygu llyfryn gwybodaeth yr awdurdod lleol ar gyfer Medi 2027**

| | |
|---|---|
| | 9.1 Mae'r llyfryn ar gyfer 26/27 wedi cael ei adolygu ac mae yna newidiadau arfaethedig. Rhan o'r rhain yw'r newidiadau i'r polisi derbyniadau ysgolion a chyfuno'r ddwy ddogfen ochr yn ochr â diweddariadau gan adrannau eraill. Bydd y newidiadau'n cael eu gwneud yn barod i'r llyfryn gael ei gyhoeddi ar gyfer Mehefin 26. Mae'r llyfryn wedi cael ei ddosbarthu i'r rhai sy'n cyfrannu ato er mwyn cynnwys unrhyw ddiweddariadau. Y dyddiad cau i ymateb i unrhyw newidiadau yw 27 Chwefor 2026.<br><br>9.2 Roedd cyfathrebu yn parhau mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg i'r gymuned ehangach, ac roedd y gweithgor yn ymgymryd â'r gwaith hwn dan arweiniad clwstwr ysgolion cyfrwng Cymraeg ac roedd yn cael ei gydnabod trwy Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a'r gwaith a oedd yn gysylltiedig â'i ddatblygiad. Nodwyd bod cysylltiadau cyfathrebu'n cael eu cryfhau, digwyddiadau agored yn cael eu cynnal, a strategaethau yn eu lle. Crëwyd is-grŵp newydd i edrych yn benodol ar ddata a sut yr oedd modd tracio'r dysgwyr hynny o'r meithrin i'r ysgol uwchradd. |
| **10.** | **<u>Cysoni Dyddiadau'r Tymhorau</u>**<br><br>10.1 Anfonwyd dyddiadau tymor arfaethedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 a 2027/28 at Lywodraeth Cymru. Cynnig yn unig yw'r dyddiadau hyn ar hyn o bryd yn amodol ar gytundeb yr awdurdodau.<br><br>Blwyddyn academaidd 2026/27 |

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor yn Dechrau | Hanner Tymor yn Dod i Ben | Diwedd Tymor |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | 1/9/26 | 26/10/26 | 30/10/26 | 18/12/26 |
| **Gwanwyn** | 4/1/27 | 08/2/27 | 12/2/27 | 19/3/27 |
| **Haf** | 5/4/27 | 31/5/27 | 4/6/27 | 20/7/27 |

*Sul y Pasg – Dydd Sul 28 Mawrth 2027*
*Calan Mai – Dydd Llun 3 Mai 2027*

Blwyddyn academaidd 2027/28

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor yn Dechrau | Hanner Tymor yn Dod i Ben | Diwedd Tymor |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | 2/9/27 | 25/10/27 | 29/10/27 | 17/12/27 |
| **Gwanwyn** | 4/1/28 | 21/2/28 | 25/2/28 | 7/4/28 |
| **Haf** | 24/4/28 | 29/5/28 | 2/6/28 | 21/7/28 |

*Sul y Pasg – Dydd Sul 16 Ebrill 2028*
*Calan Mai – Dydd Llun 1 Mai 2028*

| | |
|---|---|
| | Roedd y dyddiadau ar gyfer 2028/2029 a 2030/31 yn cael eu hystyried gan Gyfarwyddwyr Consortiwm De-orllewin Cymru ar y pryd a byddent yn destun ymgynghoriad lleol maes o law. |
| **11.** | **<u>Ystyried trefniadau cydlynol i bob ysgol yn Nhorfaen ar gyfer 2027/28</u>**<br><br>11.1 Fel y cynghorwyd yn flaenorol, bydd yr ALI yn derbyn ceisiadau ar gyfer pob ysgol gynradd yn Nhorfaen. Bydd yr ysgol uwchradd Ffydd yn parhau i dderbyn a phrosesu eu ceisiadau eu hunain. |
| **12.** | **<u>Adroddiad Blynyddol</u>**<br><br>12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 24/25 ar 24 Tachwedd 2025 i LlC. |
| **13.** | **<u>Cymunedau Dysgu Cynaliadwy</u>**<br><br>13.1 Diweddariad gan ST:-<br><br><u>Maendy</u><br>Bydd yr adeilad gofal plant yn cael ei gwblhau ddechrau mis Chwefror ynghyd â gweddill y safle, sef y maes chwarae a'r maes parcio. Disgwylir cadarnhad ynglŷn â chwblhau'r cae glaswellt, yn ddiweddarach yn y flwyddyn.<br><br><u>Crownbridge</u><br>Mae'r prosiect hwn bellach wedi'i gwblhau.<br><br><u>Ysgol Bryn Onnen</u><br>Mae'r cam dylunio yn parhau i fynd rhagddo. Rhaglen wedi'i diweddaru i'w chadarnhau. |
| **14.** | **<u>Capasiti a Rhif Derbyn</u>**<br><br>14.1 Bydd y niferoedd a dderbynnir i Ysgol Gynradd Maendy yn rownd dderbyn 27/28 yn gostwng o 60 i 55. Bydd Pen-y-garn yn gostwng o 63 i 60. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cynnig newidiadau i'r niferoedd derbyn mewn rhai ysgolion. Nid yw hyn er mwyn lleihau capasiti'r ysgol ond er mwyn iddynt ddod yn unol â'u niferoedd derbyn. |
| **15.** | **<u>Unrhyw Fater Arall</u>**<br><br>15.1 CD – gofynnwyd a fyddai modd rhannu'r llyfryn gyda'r lleoliadau nas cynhelir. Gofynnodd KS i KT gyhoeddi llyfryn 2027 i'r lleoliadau, fel y gellir canfod unrhyw ddiweddariadau, a'u hychwanegu at y rhestr ddosbarthu.<br><br>15.2 Dywedodd KS wrth y grŵp y bydd y fforwm derbyn i ysgolion yn cael ei newid i Dachwedd/Rhagfyr ac yna Mai/Mehefin fel y gellir darparu ffigurau cywir. |
| **16.** | **<u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u>** |

| | |
|---|---|
| | 16.1 Cynigiwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar 18 Tachwedd 2026. Byddai’r cyfarfod yn cael ei gynnal dros Microsoft Teams a’r gwahoddiad Teams yn cael ei anfon allan maes o law. Byddai’r agenda ac unrhyw bapurau yn cael eu dosbarthu maes o law.<br><br>16.2 Diolchodd KS i aelodau'r Fforwm am eu presenoldeb. |

**Kelly Slade**
**Rheolwr Derbyniadau a Throsglwyddo**
**Ionawr 2026.**